# LLAFUR CYMRU WELSH LABOUR

## MANIFFESTO LLAFUR WRECSAM



# DOD Â DEMOCRATIAETH YN ÔL I WRECSAM

Cyhoeddi ac argraffu ar ran Llafur Wrecsam gan Dana Davies, 6 Clos Bedwell, Rhiwabon, Wrecsam LL14 6BW

# DOD Â DEMOCRATIAETH YN ÔL I WRECSAM

**Cyflwyniad**

Yn groes i farn nifer o drigolion, nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam dan arweiniad cynghorwyr Llafur Cymru. Yn wir, cynghorwyr Annibynnol a Cheidwadwyr yw’r Bwrdd Gweithredol presennol i gyd, rhai nad ydynt wedi gwrando ar gyngor cynghorwyr eraill nac wedi gwrando ar lais nifer o drigolion, y gymuned fusnes na grwpiau ymgyrchu, ar ystod o faterion. Rydym yn mynnu’n gryf nad yw'r weinyddiaeth bresennol yn addas i'r diben a’i bod wedi siomi pobl Wrecsam.

Gyda thoriadau’r Ceidwadwyr yn yr arian sy’n dod i Gymru, mae pob Cyngor yn wynebu’r angen i wneud toriadau cyllideb, felly nid yw sefyllfa Wrecsam yn un unigryw. Fodd bynnag, mae Cynghorau Llafur Cymru wedi rhoi blaenoriaeth i nifer o wasanaethau rheng flaen a chredwn y dylai Wrecsam wneud yr un fath. Mae gan Lafur Cymru ddealltwriaeth gadarn o'r sefyllfa economaidd. Nid yw'n credu y dylid peryglu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol ac na ddylai’r economi leol barhau i fod yn ddisymud.

Gwyddom fod pobl Wrecsam yn caru’r dref a’u cymunedau lleol yn fawr, ac felly, rydym yn addo y byddwn ni nid yn unig yn eich clywed,ond yn gwrando ar yr hyn sydd gennych chi i’w ddweud ac yn gwneud dewisiadau gwybodus.

Mae ein maniffesto yn amlinellu cynllun uchelgeisiol ond realistig ar gyfer Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Rydym yn hollol ymwybodol o’r heriau sy’n ein hwynebu ym mhob un o’r sectorau sydd wedi’u hamlinellu fel ein blaenoriaethau. Er hynny, rydym wedi’n hysbrydoli gan gynnydd y Fwrdeistref hon dan Lafur yn y gorffennol, a gwnawn hynny eto. Mae angen i ni ddatblygu economi gadarn a bywiog i’n galluogi i ddod â swyddi a ffyniant i’n cymunedau, a thrwy hynny ein galluogi i adfywio canol ein tref a thaclo troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae gwasanaethau addysg a gofal cymdeithasol a thai oll dan reolaeth yr awdurdod lleol. Gan hynny, rhaid i ni sicrhau fod ein hymroddiad i’r sectorau hyn ar frig ein hagenda gan eu bod yn gallu gwneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau ein trigolion, o bob oed a chefndir.

Gwyddom eich bod yn malio am yr holl faterion hyn, felly rhowch eich cefnogaeth i ni, a gyda’n gilydd gallwn wireddu hyn. Dim ond Llafur Cymru fydd yn symud Cyngor Wrecsam yn ei flaen.

Cyhoeddi ac argraffu ar ran Llafur Wrecsam gan Dana Davies, 6 Clos Bedwell, Rhiwabon, Wrecsam LL14 6BW

## PLANT A PHOBL IFANC – Y DYFODOL

Mae addysg o ansawdd yn fwy na lles cyhoeddus yn unig, mae'n hawl dynol. Yn Wrecsam, byddwn yn arwain dull tra gwahanol o ymdrin ag addysg a gwasanaethau plant; dull cydweithredol, deinamig ac uchelgeisiol ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc. Bydd cyngor dan arweiniad Llafur yn:

- ✓ gosod disgwyliadau cydlynol a chytbwys ar gyfer addysg a gwasanaethau plant;
- ✓ gweithio gyda'r holl asiantaethau perthnasol i leihau effeithiau tlodi ac anfantais ar safonau addysg a lles plant;
- ✓ annog dyheadau ein plant a'n pobl ifanc a gweithio gydag arweinwyr busnes lleol i ddatblygu cynlluniau profiad gwaith a mentora o safon uchel;
- ✓ datblygu partneriaeth gryfach gyda Phrifysgol Glyndŵr a Choleg Cambria i wella cyfleoedd dysgu;
- ✓ hyrwyddo cydraddoldeb mewn dulliau dysgu academaidd a galwedigaethol i sicrhau bod POB un o'n plant a'n pobl ifanc yn cael eu paratoi ar gyfer anghenion gweithlu modern;
- ✓ datblygu safle Ysgol Groves fel canolfan sgiliau a dysgu gydol oes;
- ✓ ymrwymo i gynyddullefydd ysgol yn ein hysgolion cynradd a chyfrwng Cymraeg;
- ✓ cefnogi polisi Llywodraeth Lafur Cymru i gynyddu'r cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu a defnyddio'r Gymraeg, gyda'r nod o gynyddu'r nifer o bobl sydd â sgiliau dwyieithog;
- ✓ annog gwir gyfranogaeth ac ymgysylltu gyda rhieni a gofalwyr;
- ✓ cefnogi polisi Llywodraeth Lafur Cymru i ddarparu 30 awr o ofal plant am ddim ar gyfer rhieni sy'n gweithio a chanddynt plant tair a phedair oed.

Rydym yn gresynu at y ffaith bod gwasanaethau ieuenctid wedi cael eu torri a gwasanaethau chwarae yn awr mewn perygl. Bydd cyngor dan arweiniad Llafur yn:

- ✓ sicrhau bod rhagor o gefnogaeth i ddarpariaeth y gwasanaeth ieuenctid a darganfod ffyrdd arloesol o sicrhau'r gwasanaeth hwnnw;
- ✓ hyrwyddo a chefnogi'r trydydd sector er mwyn galluogi darpariaeth chwarae o ansawdd uchel;
- ✓ darparu fframwaith i'n holl bartneriaid cymunedol i sicrhau gwasanaethau plant sydd wedi'u cynllunio'n dda.
- ✓ sicrhau fod safon uchel a gwydn o atebolrwydd yn ei le a bod y rhai sy'n dal ein gwasanaethau i gyfrif yn meddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i wneud hynny.

## GOFAL CYMDEITHASOL

Hawl, nid braint, yw mynediad at ofal cymdeithasol o ansawdd uchel. Mae'n rhaid i ni amddiffyn ein pobl ifanc, anrhydeddu ein henoed a gofalu am ein trigolion sâl, unig a bregus. Bydd cyngor dan arweiniad Llafur yn:

- ✓ cynnig dewis a mynediad at yr holl wasanaethau perthnasol i ddiwallu anghenion unigol;
- ✓ gweithio mewn partneriaeth â'r holl asiantaethau i ddatblygu Siarter Gofal Moesegol sydd yn cydymffurfio â Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2016;
- ✓ creu cymunedau Dementia Gyfeillgar ac ymroddi i gynghorwyr y Fwrdeistref gymryd rhan mewn hyfforddiant Dementia Gyfeillgar i gefnogi Ymgyrch Cyfeillion Dementia'r Gymdeithas Alzheimer;

Cyhoeddi ac argraffu ar ran Llafur Wrecsam gan Dana Davies, 6 Clos Bedwell, Rhiwabon, Wrecsam LL14 6BW

- ✓ ymroddi i ymagwedd amlasiantaeth tuag at ddatblygu strategaeth iechyd meddwl i ddiwallu anghenion cefnogaeth pob grŵp oedran;
- ✓ sicrhau y caiff gwasanaethau cefnogaeth o'r safon uchaf eu darparu i blant a phobl ifanc sydd yn fregus neu sydd ag anghenion ychwanegol;
- ✓ ymroddi i ymagwedd ataliol gyda phwyslais ar ymyrraeth gynnar pan fyddwn yn dylunio ac yn darparu gwasanaethau;
- ✓ buddsoddi mewn amodau sydd yn pwysleisio cefnogaeth ac annibyniaeth i'r rhai sydd mewn argyfwng;
- ✓ datblygu dull sydd yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion unigolion yn hytrach na bod angen i'n trigolion addasu i anghenion y gwasanaeth;
- ✓ cefnogi polisi Llywodraeth Lafur Cymru i fwy na dyblu'r cyfalaf y caiff pobl ei gadw cyn talu am ofal preswyl;
- ✓ cefnogi Trydydd Sector sydd *nid er elw*, yn cynnwys mudiadau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol;
- ✓ sicrhau na fydd cyfaddawdu ar safonau pan fo'r sector preifat yn rhan o ddarpariaeth gwasanaeth;
- ✓ gweithio gyda mudiadau partner a fydd yn rhoi tal priodol i'w cyflogeion am waith a ymgymerir i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

## TAI

Mae'r hawl i gartref yn hawl dynol sylfaenol. Hyd yma, nid oes Cynllun Datblygu Lleol yn ei le, ac felly, gall datblygwyr godi tai er mwyn elw heb unrhyw ystyriaeth i anghenion y gymuned. Byddwn yn mynd ati yn i ymdrin yn gynhwysfawr â'n hargyfwng tai a byddwn yn mynd i'r afael â materion ym mhob sector o'r farchnad dai. Bydd cyngor dan arweiniad Llafur yn:

- ✓ sicrhau bod cynllun datblygu yn cael ei roi yn ei le a fydd yn ddilys am ddau dymor cyngor;
- ✓ ymrwymo i gwotâu gwydn ar gyfer tai fforddiadwy;
- ✓ sicrhau bod tai cyngor newydd yn cael eu hadeiladu fel rhan o'n cynllun i gynnig dewis yn y farchnad dai, acatal yr 'Hawl i Brynu';
- ✓ gweithio gyda datblygwyr a chymdeithasau tai moesegol i gynyddu stoc tai cymdeithasol ar bwyntiau rhent fforddiadwy;
- ✓ dyfeisio Siarter Landlordiaid a datblygu'r Asiantaeth Osod Leol i gefnogi landlordiaid da sydd wedi'u cofrestru gydag a'u trwyddedu gan Rhentu Doeth Cymru gan sicrhau fod llety rhent preifat yr ardal o safon dderbyniol;
- ✓ gweithio gydag asiantaethau perthnasol i fynd i'r afael â'r problemau digartrefedd yn y Fwrdeistref;
- ✓ cwblhau'r gwaith a gychwynnwyd gyda chyllid Llywodraeth Cymru i sicrhau fod yr eiddo a rentir gan y cyngor yn cynnig cartrefi o ansawdd da i drigolion, ac yn cwrdd â Safon Ansawdd Tai Cymru.

## YR ECONOMI, SWYDDI A BUSNES

Oherwydd diffyg gweledigaeth ac uchelgais, collwyd nifer o gyfleoedd ar gyfer buddsoddi at i mewn. Mae angen ffocws parhaus i greu gweithlu hynod fedrus, llawn cymhelliant i ddenu'r swyddi sy'n talu'n dda sydd eu hangen ar Wrecsam.

Dros y bum mlynedd nesaf, bydd cyngor dan arweiniad Llafur yn:

- ✓ gweithio mewn partneriaeth â holl sefydliadau ac asiantaethau Wrecsam, yn cynnwys Prifysgol Glyndŵr, Coleg Cambria a'r Bwrdd Iechyd, i ffurfio cynllun sgiliau ac economi i lunio dyfodol Wrecsam;
- ✓ datblygu safle'r Groves fel canolbwynt ar gyfer sgiliau a dysgu gydol oes;

Cyhoeddi ac argraffu ar ran Llafur Wrecsam gan Dana Davies, 6 Clos Bedwell, Rhiwabon, Wrecsam LL14 6BW

- ✓ gweithio gyda'r gymuned busnes i greu Ardal Gwella Busnes (Business Improvement District/BID) a datblygu canolbwynt deor busnesau bychain er mwyn helpu i feithrin ac annog menter leol;
- ✓ cefnogi parhad mynediad at gynghorwyr Gyrfa Cymru fel y caiff ein holl blant a phobl ifanc eu harfogi er mwyn cyrraedd eu llawn botensial, a'u galluogi i fod yn barod am y gweithle;
- ✓ cefnogi hyfforddiant prentisiaethau gyda phrif gyflogwyr y sir, gyda phwyslais gynyddol ar brentisiaethau lefel uwch;
- ✓ gweithio i sicrhau buddsoddiad mawr yn yr isadeiledd trafnidiaeth leol, i gysylltu cartrefi a swyddi newydd gyda rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy a gwella diogelwch a phrofiad cerddwyr;
- ✓ gweithio mewn partneriaeth i sefydlu cynllun trafnidiaeth i'r sir a chysylltu gyda Llywodraeth Lafur Cymru i ddarparu metro Gogledd Cymru;
- ✓ hyrwyddo'r Cyflog Byw a gweithio tuag at ddod yn gyngor cyflog byw;
- ✓ gweithio i sicrhau Uwch Ganolfan Adnoddau Gweithgynhyrchu i gefnogi buddsoddiad ymchwil a datblygiad yn yr economi leol;
- ✓ cynhyrchu swyddi a phrentisiaethau lleol newydd yn y diwydiant adeiladu drwy adeiladu rhagor o dai.

## ADFYWIO CANOL TREF WRECSAM

Hoffem i Wrecsam fod yn le y mae pobl yn falch o fyw, gweithio a hamddena ynddo. Bydd cyngor dan arweiniad Llafur yn:

- ✓ ymgynghori â'r cyhoedd ar strategaeth gynhwysfawr ar gyfer canol tref Wrecsam i gynyddu nifer yr ymwelwyr, gwella diogelwch y cyhoedd ac adfywio'r dref;
- ✓ gweithio mewn partneriaeth â Fforwm Canol y Dref a'r gymuned fusnes i greu economi tref ac economi bywyd nos fwy bywiog;
- ✓ ymgyrchu i wneud Wrecsam ynGanolfan Llywodraethol Gogledd-ddwyrain Cymru;
- ✓ dyfeisio polisi parcio sy'n gweithio ar gyfer preswylwyr, yr anabl, busnesau ac ymwelwyr;
- ✓ sicrhau fod canol ein tref yn cael ei gadw'n dda, yn ddeniadol ac yn lle dymunol i ymweld ag ef;
- ✓ gweithio'n agos gyda'r heddlu ac asiantaethau eraill i geisio datrysiadau i'r problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n difetha canol ein tref;
- ✓ cefnogi ymgyrchoedd gwybodaeth i leihau sbwriel, tipio anghyfreithlon a baw cŵn, ar draws y fwrdeistref sirol.

## TROSEDDU AC YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

Hoffem i'n cymunedau fod yn amgylchedd diogel i drigolion ac ymwelwyr. At hynny, rydym eisiau teimlo'n falch o'n Bwrdeistref a gwybod ei fod yn lle dymunol i fyw, gweithio ac ymweld â hi.
Bydd cyngor dan arweiniad Llafur yn:

- ✓ gweithio gyda'r heddlu ac asiantaethau eraill i ddatblygu cynllun cynhwysfawr i atal a lleihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghanol y dref ac ar draws ein cymunedau;
- ✓ adolygu'r polisi presennol ar ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben;
- ✓ sicrhau bod holl staff rheng flaen y cyngor yn cael eu cefnogi i ymdrin â materion sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- ✓ sicrhau bod unrhyw asiantaethau yn y sector preifat sy'n gweithio ar ran y Fwrdeistref, yn gwneud hynny o fewn ffiniau derbyniol a theg gyda chymal moesegol wedi'i gynnwys ym mhob contract;
- ✓ cwrdd â disgwyliadau darpariaeth diogelwch y cyhoedd o ran adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor.

Cyhoeddi ac argraffu ar ran Llafur Wrecsam gan Dana Davies, 6 Clos Bedwell, Rhiwabon, Wrecsam LL14 6BW

**MUDIADAU GWIRFODDOL A'R TRYDYDD SECTOR**

Mae mudiadau gwirfoddol a'r trydydd sector yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy i'n cymunedau. Mae strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Lafur Cymru wedi helpu i gynnal y gefnogaeth hanfodol a ddarperir gan y sector ac yn helpu'r teuluoedd hynny sy'n dioddef fwyaf dan law'r diwygiadau lles. Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn parhau fel partner allweddol yn y gwaith hwn. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r sector i leihau a mynd i'r afael â thrais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Bydd cyngor dan arweiniad Llafur yn:

- ✓ gweithio gydag awdurdodau lleol eraill, y trydydd sector a sefydliadau gwirfoddol i sicrhau cadw'r gwasanaethau hanfodol hyn a'u darparu i'r safon uchaf posibl;
- ✓ adnabod yr angen am effeithlonrwydd ond anelu at leihau effaith unrhyw arbedion ar wasanaethau rheng flaen a chyflogaeth y rhai sy'n eu cyflenwi;
- ✓ gweithio'n greadigol i gefnogi menter gymdeithasol, cwmnïau cydfuddiannol a chwmnïau cydweithredol, ac felly cadw cyfleusterau pwysig ar gyfer ein cymunedau, megis cyfleusterau hamdden a llyfrgelloedd;
- ✓ sefydlu ffordd gydweithredol o weithio sy'n seiliedig ar egwyddorion tegwch, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol;
- ✓ gweithredu yn erbyn twyll a mynd i'r afael â benthycwyr arian didrwydded drwy gefnogi undebau credyd a hyrwyddo gwaith y Gwasanaeth Cynghori Ariannol sy'n rhoi cyngor ar ddewisiadau amgen i dalu benthyciadau diwrnod cyflog;
- ✓ sicrhau bod gan y cyngor adnodd sy'n canolbwyntio ar yr angen i leihau trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**Cydnabod a mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Wrecsam fyddffordd Llafurymlaen. Byddwn yn gwrando ar ein cymunedau lleol a byddwn yn greadigol ac uchelgeisiol yn ein dull o sicrhau dyfodol disglair i'n Bwrdeistref a'i phobl.**

Cyhoeddi ac argraffu ar ran Llafur Wrecsam gan Dana Davies, 6 Clos Bedwell, Rhiwabon, Wrecsam LL14 6BW